



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Seibiant Bryn Siriol**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

20/12/2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Gwasanaeth Seibiant Bryn Sriol

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cymdeithas Frenhinol Mencap
Lleuedd cofrestredig	3
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">8 Hydref 2021</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

### Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth seibiant y maent yn ei gael. Dywedodd cynrychiolydd rhywun sy'n defnyddio'r gwasanaeth *"it's absolutely wonderful, they are so caring and they support him to just slot in when he visits"*. Caiff gweithwyr cymorth profiadol ac angerddol eu harwain gan gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cyfathrebu unigol yn elfen allweddol o'r gwasanaeth.

Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n hygyrch a gwnaed addasiadau sy'n galluogi'r bobl i aros yn annibynnol. Ers i'r cyfyngiadau gael eu codi, mae'r gwasanaeth yn datblygu mwy o fannau cymdeithasol i'r bobl gwrdd ynddynt.

Mae rheolwr y gwasanaeth yn hawdd mynd ati ac mae pawb yn ei pharchu. Mae'r darparwr yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn canolbwyntio ar welliant parhaus.

## Llesiant

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei gael. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad am eu gofal a'u cymorth. Mae uwch-aelodau o'r staff yn cyfathrebu'n dda â'r bobl ac aelodau o'u teuluoedd cyn ac ar ôl pob ymweliad. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl gan eu bod yn cael eu cefnogi i weithio'n effeithiol gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r gweithwyr allweddol yn cadw cynlluniau personol manwl a llawn gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig.

Mae gweithwyr cymorth profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda wedi meithrin cydberthnasau hirsefydlog â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr wrthym *"I enjoy the interactions and seeing people smile. I love the individuality and treating people as individuals"*. Mae'r gweithgareddau wedi aildechrau ar ôl y pandemig ac mae'r bobl yn mwynhau gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Wrth drafod gweithgareddau, dywedodd un gweithiwr cymorth *"we get people involved as much as possible and they get so much out of achieving things"*.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu y gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y dymunant.

Drwy brosesau recriwtio a hyfforddiant, gwneir yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn gan weithwyr medrus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn llwyr yn y rheolwr.

Mae'r adeilad yn olau ac yn ffres, ac mae'r cynllun a'r addasiadau yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae gwahanol ardaloedd cymunedol i'r bobl eu defnyddio sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau; er enghraifft, cynllunio pryd a choginio eu hunain. Mae gerddi a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda yn hygyrch. Mae ystafell synhwyraidd a gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.



## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Dywedodd un aelod o deulu wrthym *"she's so excited to go there and that lets me know she's happy"*. Am gyfnodau byr y bydd y bobl yn aros yn y gwasanaeth ond mae'r staff yn treulio amser yn dod i'w hadnabod ac yn canolbwyntio ar y ffordd y maent am gyfathrebu. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym *"I enjoy all aspects of the job and the new faces at the service makes it more interesting and varied"*.

Mae gan y darparwr system cynllunio gofal electronig. Mae'r cynlluniau yn gywir ac yn gyfredol ac maent yn cynnwys llawer o wybodaeth gadarnhaol am yr unigolyn a'r ffordd orau o'i gefnogi. Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae asesiadau risg yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac yn annibynnol, heb fod yn rhy gyfyngol. Mae'r asesiad risg yn cynnwys y datganiad agored canlynol *"There are lots of things people like to do in life that involves risk. This plan is about doing things as safely and sensibly as we can, rather than saying we are only doing things that are totally safe"*. Mae'r gweithwyr allweddol yn adolygu'r cynlluniau gyda'r unigolion a'u cynrychiolwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn berthnasol o hyd. Mae'r gweithiwr allweddol yn cysylltu â'r bobl a'u perthnasau dros y ffôn ar ôl pob arhosiad i weld sut aeth pethau ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau ar gyfer yr ymweliad nesaf. Mae nodiadau dyddiol yn fanwl ac yn dangos y cymorth y mae'r bobl yn ei gael yn unol â'u hoff bethau a'u cas bethau. Gwelsom dystiolaeth dda wedi'i dogfennu mewn cynlluniau o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion unigol, sy'n amrywio o siopa, coginio, prydau allan a mwynhau'r gymuned leol. Dywedodd un cynrychiolydd wrthym *"she likes to do her own thing and they (staff) respect that and support her to do what she likes"*. Mae'r rheolwr hefyd yn trefnu mwy o weithgareddau yn y gwasanaeth i roi cyfle i bobl gymdeithasu a rhyngweithio â'i gilydd. Mae'r darparwr yn ymchwilio i opsiynau cyllido gwahanol ar gyfer cael cerbyd newydd i wella gweithgareddau ymhellach.

Caiff nifer y staff ei fonitro gan y rheolwr ac mae'n newid yn unol ag anghenion pob unigolyn yn ystod ei arhosiad. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal rhaglen allgymorth fach i gefnogi pobl sy'n byw'n lleol.

## Yr Amgylchedd

Mae rheolwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae cynllun a dyluniad yr adeilad ynghyd â'r cyfarpar a'r addasiadau yn helpu'r bobl i fod yn annibynnol. Mae pobl yn dod ag eitemau personol i addurno eu hystafelloedd yn ystod arosiadau ac mae'r darparwr yn gweithio ar ffyrdd newydd o sicrhau bod y gwasanaeth yn fwy cartrefol i'r bobl. Caiff y gerddi eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn hygyrch. Mae ystafell synhwyrdd ar gael i'r bobl ei mwynhau hefyd.

Mae cryn bwyslais ar ddulliau cyfathrebu cynhwysol yn y gwasanaeth a defnyddir symbolau a ffotograffau ym mhob rhan ohono. Mae'r darparwr wrthi'n cyfieithu polisïau allweddol i'r Gymraeg a gall y mwyafrif o'r gweithwyr cymorth siarad â'r bobl yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dymuniad.

Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad tân mewnol diwethaf wedi'u cwblhau. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael tystysgrif sgôr hylendid bwyd pum seren. Mae'r gweithwyr cymorth yn hybu annibyniaeth ac yn cefnogi'r bobl i brynu bwyd a pharatoi eu prydau eu hunain. Mae arwynebau gwaith y gellir eu haddasu yn golygu y gall y bobl gymryd rhan lawn yn y broses.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oes gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr ac maent yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr a'r staff. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym *"I've seen him (RI) a lot and he understands our role and the challenges we face. He asks us what we think and he does things that benefits the service"*. Mae gwybodaeth o systemau sicrhau ansawdd mewnol yn llywio'r cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth. Roedd yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal a oedd yn cael ei gynnal bob chwe mis yn dangos adborth cadarnhaol gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn nodi meysydd o'r gwasanaeth y mae'r darparwr am eu gwella, fel datblygu'r defnydd o'r Gymraeg a gwella'r gerddi.

Ceir diwylliant agored a chefnogol yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn hawdd mynd ati ac yn barod i helpu. Dywedodd un aelod o deulu *"[Manager] is absolutely wonderful and would help out whenever we need anything, is easy to talk to and tells us "if you need us just phone"*. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym *"[Manager] is very good, she keeps us informed of things we need to know and always thinks ahead. I can talk to her about anything and she is definitely approachable. I can't praise them enough"*. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod y staff yn cael goruchwyliaeth un i un yn rheolaidd a dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr bob amser ar gael os bydd angen help arnynt. Mae'r rheolwr yn ailddechrau'r broses arfarnu a byddwn yn gwirio hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae gan y gweithwyr cymorth ddealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio, gan gynnwys gwirio geirdaon a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff y gweithwyr cymorth hyfforddiant gorfodol, hyfforddiant sy'n benodol i unigolion a hyfforddiant datblygiadol er mwyn diwallu anghenion y bobl a sicrhau bod modd cyflawni canlyniadau.

Mae'r darparwr wedi trosglwyddo gwybodaeth am gynllunio gofal i'r bobl a ffeiliau personél i system electronig. Mae hyn wedi gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth allweddol a goruchwyliaeth y rheolwr. Er enghraifft, hysbysiadau pan fydd angen adolygu cynlluniau, os nad yw meddyginiaeth wedi'i rhoi ar amser neu os oes angen diweddarau gwybodaeth am staff.

Mae digon o staff yn gweithio i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae system gweithiwr allweddol yn sicrhau bod y bobl yn cael parhad gofal gyda chymorth i feithrin cydberthnasau â'r staff.





### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

**Dyddiad Cyhoeddi 20/01/2023**